

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Cynllun Datblygu Lleol (2016-2031)

CYNIGION CYN-ADNEUO DOGFEN 2 ADRODDIAD GWERTHUSO CYNALIADWYEDD CYCHWYNNOL CRYNODEB ANNHECHNEGOL

Mehefin 2017



Polisi & Gweithredu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5
Parc Busnes Triongl
Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

CYNNWYS	TUDALEN
1. Cyflwyniad	1
2. Y Cynllun Datblygu Lleol	1
3. Y Strategaeth a Ffefrir	1
4. Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol a'r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (CATT)	2
5. AG ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)	2
6. The Stages of the SA	3
7. Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin	3
8. Fframwaith yr AG	5
9. Beth sydd wedi cael ei asesu hyd yma??	5
10. Y Fethodoleg Arfarnu	6
11. AG o'r Weledigaeth	9
12. AG o Nodau'r SFF	9
13. AG o Dwf ac Opsiynau Gofodol	9
14. AG o Bolisiâu'r SFF	11
15. Crynodeb o'r AG ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol a CATT	12
16. Dadansoddiad o'r arfarniadau	12
17. Y camau nesaf	14
18. Sut i wneud sylwadau am yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol	15

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn grynodedb dealladwy o Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) Cychwynnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'r AG yn profi beth yw effeithiau tebygol economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o ddefnyddio'r Strategaeth a Ffefrir ac mae'n ceisio isafu unrhyw effeithiau negyddol a gwneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol.

2. Y Cynllun Datblygu Lleol

- 2.1 Rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer ei ardal. Dylai'r cynllun ddarparu'r cyd-destun ar gyfer sut fydd cymunedau'n tyfu a datblygu yn y dyfodol. Ei nod yw cynnig sicrwydd i gymunedau a buddsoddwyr fel ei gilydd ynghylch ble y dylai datblygiad a mathau o ddatblygiad ddigwydd ar dir yn yr ardal.
- 2.2 Caiff CDLIau eu monitro yn flynyddol i sefydlu a ydynt yn gweithio fel y bwriadwyd. Mae CDLI cyfredol yn rhan hanfodol o system gynllunio a gaiff ei harwain gan gynllun ac er mwyn sicrhau fod yna asesiad rheolaidd a chynhwysfawr a yw'r cynllun yn parhau'n gyfredol, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn ymgymryd ag adolygiad llawn o'r CDLI a fabwysiedir bob pedair blynedd. Cafodd CDLI Merthyr Tudful 2006 -2021 ei fabwysiadu ym mis Mai 2011. Ym mis Ebrill 2016, cymeradwyodd y Cyngor y paratoad ar gyfer CDLI amnewid i gynnwys y cyfnod 2016 - 2031. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor bydd yn darparu fframwaith polisi ar gyfer datblygu a defnyddio tir oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, cyn bod y cynllun yn gallu cael ei gymeradwyo'n derfynol, rhaid ysgrifennu a chytuno ar Gynllun drafft (Cyn-adneuo), sef Y Strategaeth a Ffefrir (SFf)

3. Y Strategaeth a Ffefrir

- 3.1 Mae'r Cyngor wedi paratoi SFf, sy'n gosod allan y dull gweithredu eang y mae'r CDLI yn bwriadu ei gyflawni er mwyn sicrhau fod y Fwrdeistref Sirol yn datblygu mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu darparu'r ffordd orau i wneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o dir. Gall penderfyniadau o'r fath effeithio ar fywydau pobl sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol ac yn ymweld â hi. Mae'r strategaeth yn ymgeisio cydbwysu'r angen am dwf yn erbyn y ffaith ei fod yn angenrheidiol cynnal adnoddau cyfyngedig sydd eu hangen i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

3.2 Mae'r Sff yn cynnwys:

- ◆ **Gweledigaeth:** disgrifiad yn cynnwys nodau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol;
- ◆ **Nodau:** ar gyfer darparu cyfleoedd defnyddio tir i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol;
- ◆ **Opsiynau Twf:** opsiynau ar gyfer gwahanol symiau o dwf y boblogaeth yn y dyfodol, tai a chyflogaeth hyd at 2031;
- ◆ **Opsiynau Gofodol:** Opsiynau ar gyfer ble i leoli tai a chyflogaeth a
- ◆ **Polisiau:** mesurau angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth a'r nodau a helpu i arwain penderfyniadau datblygu defnydd o dir yn y dyfodol.

4. **Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol a'r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (CATT)**

- ◆ **Safleoedd Ymgeisiol:** safleoedd y gall unrhyw un eu cyflwyno i'w hystyried gan yr ACLI, sy'n cael eu cynnwys ar Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol, ond a all gael eu cynnwys neu beidio â chael eu cynnwys fel safleoedd datblygu yn y CDLI.
- ◆ **Ar gyfer 2016 gwnaeth CATT Merthyr Tudful** gyflwyno'r cyflenwad o dir tai ar gyfer yr ardal ar y dyddiad sylfaenol o 1 Ebrill 2016 gan asesu'r tebygolrwydd o gwblhau tai yn ystod y 5 mlynedd nesaf ar 45 safle ledled y Fwrdeistref Sirol.

5. **AG ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)**

- 5.1 Fel rhan o'r broses CDLI, rhaid i'r Cyngor gyflawni AG o'r Cynllun¹, sydd hefyd yn gorfod cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)². Caiff y broses ar y cyd hwn o'r AG ac AAS ei alw'n AG.
- 5.2 Fel rhan o'r broses AG, mae'r Cyngor wedi edrych yr effeithiau sylweddol tebygol o safbwynt economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o'r Sff ac , wedi anelu at isafu unrhyw effeithiau negyddol tebygol a gwneud y mwyaf o'r rhai cadarnhaol. Mae'r broses hefyd yn cynnwys Asesiadau Effaith Iechyd, Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg. Mae Rheoliadau Asesu Cynefinoedd ar wahân wedi cael ei gyflawni hefyd.

¹ Fel sy'n ofynnol o Ddeddf Prynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru) 2005.

² Fel sy'n ofynnol gan Gyfarwydddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol 2001/42/EC ac Asesiad Amgylcheddol Rheoliadau Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

6. Camau'r AG

- 6.1 Rhaid cyflawni'r AG mewn pum cam yn ôl yr hyn a osodwyd allan yn Llawlyfr CDLI Llywodraeth Cymru ³ fel a ganlyn:

Tabl 1: Camau'r AC: Y pum prif gam wrth arwain AC sydd angen eu cynnwys wrth baratoi CDLI	
Cam 1	Gosod y cyd-destun a'r amcanion, cadarnhau'r llinell sylfaen a phenderfynu ar gwmpas
Cam 2	Datblygu a choethi opsiynau ac asesu effeithiau
Cam 3	Paratoi'r Adroddiad AC
Cam 4	Ymgynghoriad ar y Sff a'r Adroddiad AC
Cam 5	Monitro effeithiau arwyddocaol gweithredu'r CDLI

- 6.2 Mae'r Cyngor wedi cwblhau Cam 1 gyda chyhoeddi Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin yr AG ⁴. Cafodd yr adroddiad ei anfon allan i Ymgynghorai Statudol, ym mis Tachwedd 2016 a'i ddiwygio yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae fersiwn lawn Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol yn cwblhau Cam 2, ac mae'r ymgynghoriad ar y ddogfen honno yn cwblhau Cam 3 a rhan gynnar Cam 4.

7. Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin yr AG

- 7.1 Yn ystod 2016, gwnaeth y Cyngor ddechrau casglu data am gyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Fwrdeistref Sirol, oddi wrth bolisiâu allweddol, rhaglenni allweddol a chynlluniau allweddol a gynhyrchwyd ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol. Cafodd y wybodaeth hon ei gosod at ei gilydd yn Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin yr AG. Cafodd yr holl dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad ei hasesu ac mae'r materion a chyfleoedd cynaliadwy allweddol canlynol sy'n effeithio ar y Fwrdeistref Sirol yn cael eu gosod allan yn Nhabl 2. ,

³ Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol 2015

⁴ Arfarniadau o Gynaliadwyedd (yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad Effaith Iechyd ac Asesiad Effaith Cydraddoldebau) – Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin AG Terfynol, Ionawr 2017

TABL 2: Materion Cynaliadwyedd Allweddol/Cyfleoedd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

◆	Bydd rhaid i wasanaethau cymunedol a chyfleusterau presennol tebyg i addysg, iechyd a hamdden fedru rheoli'r newidiadau yn y boblogaeth neu bydd angen gwasanaethau a chyfleusterau newydd.
◆	Gallai cynigion datblygu arwain at ymgysylltu o setliadau neu newid nodweddion y gymuned yn arwyddocaol.
◆	Mae amcanestyniadau poblogaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd y boblogaeth yn gostwng o 2024 ymlaen ac y bydd pobl o oedran gwaith yn symud i fannau eraill yn y DU.
◆	Mae lefel amddifadedd yn uwch yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol ac nid oes gan rai wardiau ddigon o fannau agored, safonol.
◆	Yr angen ar gyfer cartrefi cymdeithasol, fforddiadwy ac ar gyfer pobl hŷn.
◆	Ansawdd ac effeithlonrwydd ynni'r 'stoc' dai presennol. Bydd angen adeiladu tai o well ansawdd.
◆	Ychydig iawn o ddatblygiadau newydd sydd wedi cael eu hadeiladu ar dir cyflogaeth dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Mae'r nifer o unedau masnachol, gwag yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru.
◆	Nifer bychan o bobl sy'n cerdded neu'n beicio ar daith sy'n fyrrach na 5km. Nid yw llwybrau beicio a cherdded wedi eu cydgysylltu'n dda ac mae teithio o'r dwyrain i'r gorllewin yn anodd.
◆	Cynigir gorsaf fysiau canolog newydd. Bydd prosiect Metro De Cymru yn gwella teithio i Gaerdydd. Gallai'r rheilffordd gael ei ddefnyddio i gludo deunyddiau crai. Mae rhwydwaith cyfleusterau gwastraff da yn bodoli.
◆	Defnydd o ynni cartref yw prif achos allyriadau GHG lleol. Mae angen mwy o ffynonellau ynni adnewyddadwy.
◆	Mae newid yn yr hinsawdd yn rhoi pwysau ar rywogaethau, cynefinoedd ac ar adnoddau dŵr. Defnydd tanwydd trafnidiaeth yw achos eilaidd GHG lleol. Cafodd Bryn Twynrodyn ei ddatgan i fod yn Ardal Rheoli Ansawdd Awyr (ARhAA.) Mae hafau hirach wedi cynyddu'r tymor ar gyfer twristiaid.
◆	Presenoldeb amrywiaeth eang o rywogaethau sydd wedi eu peryglu a chynefinoedd. Nid yw rhai coridorau gwyrdd a mannau gwyrdd yn cydgysylltu â'i gilydd.
◆	Mae angen gwella cyrff dŵr daear ac arwyneb, yn enwedig Nant Morlais, o ganlyniad i gwymp yn ansawdd y dŵr.
◆	Nodwyd fod rhannau o ganol y dref mewn perygl o lifogydd.
◆	Mae angen gwaith cadwriaethol gofalus ar ddynodiadau treftadaeth genedlaethol a lleol sy'n seiliedig ar ddiwydiannau haearn a glo'r gorffennol.
◆	Diogelir adnoddau mwynol a leolir y tu allan i aneddiadau. Mae cynllun adfer tir Ffos-y-fran yn mynd yn ei flaen ac mae caniatâd ar gyfer rhai cronfeydd mwynol o hyd.
◆	Mae llai na10% yn medru cyfathrebu yn y Gymraeg, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
◆	Mae angen diogelu ardaloedd tirweddol o ansawdd uchel, golygfeydd amlwg a ffiniau caeau traddodiadol.

8. Fframwaith yr AG

8.1 O'r materion uchod, cafodd 18 o nodau cynaliadwyedd eu creu. Gwnaeth y rhain ffurfio sail yr AG a'u defnyddio i asesu a yw'r SFf yn debygol o gael effaith sylweddol ar faterion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol fel a ganlyn:

1. Sicrhau fod anghenion cymunedol ac isadeiledd cymdeithasol yr holl breswylwyr a chymunedau yn cael eu bodloni.
2. Cynnal a gwella cymuned a hunaniaeth aneddiadau.
3. Cefnogi lefel gynaliadwy o dwf y boblogaeth.
4. Gwella iechyd a llesiant pobl a gostwng anghydraddoldebau.
5. Diwallu anghenion tai i bawb drwy gymysgedd o ddaliadaethau annedd a mathau o annedd.
6. Gwella ansawdd cyffredinol ac effeithlonrwydd ynni'r stoc tai.
7. Gwella pa mor ddeniadol yw'r Fwrdeistref Sirol i gefnogi datblygiad economaidd.
8. Lleihau'r angen i deithio ac annog moddau cynaliadwy o drafnidiaeth.
9. Sicrhau bod gwasanaethau hanfodol ac isadeiledd ar gael i ddiwallu anghenion pawb.
10. Gwneud y mwyaf o ddefnyddio ynni a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
11. Isafu'r cyfraniad at newid yn yr hinsawdd wrth wneud y mwyaf o'r gwytnwch yn ei erbyn.
12. Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chysylltedd ecosystem.
13. Isafu'r galw am ddŵr a gwella amgylchedd y dŵr.
14. Isafu'r risg o lifogydd.
15. Diogelu a chadw pridd a diogelu adnoddau mwynol.
16. Diogelu a gwella asedau gwella treftadaeth sy'n diffinio'r Fwrdeistref Sirol fel tref Gymreig fwyaf arwyddocaol y Chwyldro Diwydiannol.
17. Hwyluso gwasanaethau ac adnoddau sy'n cefnogi diwylliant lleol nodedig a'r iaith Gymraeg.
18. Diogelu a gwella ansawdd ardaloedd o werth tirlun dynodedig a threfluniau o ansawdd da.

9. Beth sydd wedi cael ei asesu hyd yma??

- ◆ Gweledigaeth
- ◆ Nodau
- ◆ Opsiynau Twf
- ◆ Opsiynau Gofodol
- ◆ Polisiâu a
- ◆ Safleoedd Ymgeisiol a Chyd-argaeledd Safleoedd Tir ar gyfer Tai (CATT).

10. Y Fethodoleg Arfarnu

- 10.1 Cafodd yr AG o'r Strategaeth Sff ei gyflawni gan swyddogion mewn tŷ y Cyngor drwy ddefnyddio set o Fatrïcsau.
- 10.2 Defnyddiwyd Matrics 1 i asesu effeithiau sylweddol tebygol y nodau.
- 10.3 Defnyddiwyd Matrics 2 i asesu effeithiau tebygol yr opsiynau Twf a Gofodol, ynghyd â set o gwestiynau 'penderfynu-adio' (gweler yr Adroddiad AG Llawn Cychwynnol) a grëwyd fel rhan o'r Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin.
- 10.4 Defnyddiwyd Matrics 3 i asesu effeithiau sylweddol tebygol y polisiau.
- 10.5 Defnyddiwyd Matrics 4 i asesu effeithiau tebygol y Safleoedd Ymgeisiol a CATT.

Matrics 1: Nodau AG o'r Sff																	
Cydnawsedd Nodau AG â Nodau Sff																	
Symbol	++ Cadarnhaol				+ Cydnaws			0 Niwtral	? Ansicr		- Gwrthdaro posibl			-- Anghydnaws			
Nodau AG	Nodau Cymdeithaso Sff							Nodau Diwylliannol Sff	Nodau Amgylcheddol Sff		Nodau Economaidd Sff						
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17
1																	
2																	
3																	
4																	
4																	
6																	
7																	
8																	
9																	
10																	
11																	
12																	
13																	
14																	
15																	
16																	
17																	
18																	

Matrics 2: AG o Opsiynau Twf a Gofodol				
Categoriâu o Arwyddocâd				
Symbol	Ystyr	Effaith Cynaliadwyedd	Asesiad	
++	Prif Gadarnhaol	Byddai'n datrys problemau cynaliadwyedd cyfredol	Anogir yn weithredol	
+	Llai Cadarnhaol	Dim cyfyngiadau cynaliadwyedd	Derbyniol	
0	Niwtral	Effaith Niwtral		
?	Ansicr	Materion cynaliadwyedd posibl	Eiriolaeth/iawndal yn bosibl	
-	Llai Negyddol	Byddai'n arwain at broblemau cynaliadwyedd	Eiriolaeth, iawndal yn debygol o fod yn anodd a/neu drud	
--	Prif Negyddol	Problemau/cyfyngiadau cynaliadwyedd y gwyddys amdanynt	Problemataidd ac annhebygol	
Crynodeb o Dabl Asesiad AG o Dwf a Gofodol				
Nod AG	Asesiad o effeithiau	Opsiw		
		Disgrifiad opsiwn 1	Disgrifiad Opsiwn 2	Disgrifiad Opsiwn 3
1	Naratif yn disgrifio effeithiau sylweddol tebygol; posibiliadau ar gyfer effeithiau eirioli negyddol a gwella effeithiau cadarnhaol; effeithiau dros ben; asesiad cymharol; cefnogir gan dystiolaeth waelodlin pan fo ar gael; ansicrwydd ac unrhyw fylchau gwybodaeth allweddol; ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwneud cynllun.			
2				
3				
4				
5				
6				
7				
8				
9				
10				
11				
12				
13	Natur yr effaith cynaliadwyedd tebygol (yn cynnwys cadarnhaol/negyddol, tymor byr-canolig (5-10 mlynedd)/hir dymor (10-20 mlynedd +), parhaol/dros dro, cronrus a syneraistidd); ansicrwydd.			
14				
15				
16				
17				
18				

Matrics 3: AG o Bolisiau Sff Cydnawsedd o Bolisiau Sff â Nodau AG																												
Symbol		++ Cadarnh		+ Cydnaws		0 Niwtral		? Ansicr		Gwrthdaro Posibl		-- Anghydawns																
Nodau AG	Polisiau Cymdeithasol Sff														Polisiau Diwyllianol	Polisiau Amgylcheddol Sff				Polisiau Economaidd Sff								
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14		15	16	17	18	19	20	21	22	23	24	25	26	27
1																												
2																												
3																												
4																												
4																												
6																												
7																												
8																												
9																												
10																												
11																												
12																												
13																												
14																												
15																												
16																												
17																												
18																												

Matrics 4: SA of Candidate and JLHAS Sites - Cluster of site options by Ward																			
Symbol	++ Cadarn haol			+ Cydnaws			0 Niwtal				? Ansicr			Gwrthdar o Posibl			-- Anghydnaws		
Safle Ymgeisiol yn ôl Ward	Nodau AG																		
	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18	
Bedlinog: 1-7																			
Cyfarthfa: 8-30																			
Dowlais: 31-41																			
Gurnos:42- 43																			
Ynys Owen:44- 48																			
Park:49-57																			
Penydarre n: 58-59																			
Plymouth: 60-78																			
Tref:79-93																			
Treharris: 94-97																			
Faenor: 98																			
Crynodeb Arfarnu: Adrodd naratif o'r effeithiau sylweddol ar gyfer safleoedd unigol, effeithiau cronnus, unrhyw ansicrwydd, eiriolaeth ac AG.																			

10.6 Gellir dod o hyd i bob asesiad yn Adroddiad Cychwynnol AG ble y caiff y matricsau manwl cyflawn eu hatodi fel Atodiadau.

11. AG o'r Weledigaeth

11.1 Yn gyffredinol, mae'r weledigaeth yn perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o'r Nodau AG, yn enwedig yn erbyn y rheini sy'n berthnasol i Gymunedau, Tai a'r Economi a Chyflogaeth.

12. AG o Nodau'r SFF

12.1 Diben nodau'r SFF yw gosod allan sut y caiff y weledigaeth ei chyflawni drwy ddarparu egwyddorion arweiniol trosfwaol i arwain cyfleoedd defnyddio tir i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pobl.

Maen nhw'n gosod y cyd-destun ar gyfer datblygu Opsiynau Twf a Gofodol, a darparu'r fframwaith y gall polisiâu'r Sff gael eu hadeiladu arnynt.

- 12.2 Cafodd y nodau sy'n gynnwysedig yn CDLI Merthyr Tudful - 2006 - 2021, eu hadolygu a'u diweddarau yng ngoleuni'r fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru a'u targedu'n benodol at faterion cynaliadwy allweddol a godwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin, fel yr amlinellwyd uchod.
- 12.3 Mae'r Sff yn cynnwys 17 o nodau mewn grŵpiau o dan y penawdau Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ac Economaidd. Cafodd y nodau eu profi yn erbyn y Nodau AG a ganfu fod yr holl nodau Sff wedi integreiddio egwyddorion cynaliadwy yn llwyddiannus. Felly, nid oes un ohonynt yn anghydnaws wrth eu profi yn erbyn y Nodau AG, yn enwedig mewn perthynas â nodau cymdeithasol ac economaidd y Sff a ble mae Sff a Nodau AG yn delio â'r un materion penodol fel tirlun a bioamrywiaeth.

13 AG o'r Opsiynau Twf a Gofodol

- 13.1 Cafodd nifer o opsiynau eu hystyried fel rhan o'r paratoad ar gyfer yr Sff ac fe gafodd eu heffaith eu dynodi yn defnyddio Fframwaith yr AG.

Lefelau gwahanol ar gyfer twf y dyfodol:

- ◆ Uchel: Parhad o'r Strategaeth Twf Ehangach Cyfredol ⁵: yn adeiladu dros 200 o gartrefi'r flwyddyn (cynyddu'r boblogaeth o 15% erbyn 2021)
- ◆ Isel: Cynllunio ar gyfer dirywiad: adeiladu tua 50-70 annedd y flwyddyn (gostwng y boblogaeth o 0.5% erbyn 2031).
- ◆ Canolig: Twf poblogaeth gynaliadwy: adeiladu ar hyd llinellau cyfraddau adeiladu hanesyddol o 150 annedd y flwyddyn (cynnu'r boblogaeth o 8% erbyn 2031).

- 13.2 Caiff ei ystyried y gallai parhau â'r strategaeth twf ehangach arwain at gynnydd mewn pwysau ar y cyfleusterau, adnoddau naturiol a thir heb ei ddatblygu. Yn ychwanegol, gallai arwain at golli gwagle agored, gwneud cynefin yn dameidiog, cynyddu traffig a gostwng safon aer.
- 13.3 Gallai cynllunio am ddirywiad arwain at ddefnydd aneffeithiol o dir, colli cyfleusterau, diffyg buddsoddiad a dewis o dai ac ynysu'r cymunedau. Yn y tymor hir, gallai hyn olygu cynnydd mewn diweithdra a deilliant.

⁵ Yn CDLI Merthyr Tudful -2006 -2021, Mai 2011

13.4 Byddai'r opsiwn twf cynaliadwy a Ffeirir yn cefnogi cadw'r boblogaeth oed gwaith, cadw hunaniaeth a chyfleusterau cymunedol ac mae'n debygol o ddarparu amrywiaeth o fathau o annedd a swyddi. Byddai hefyd yn cynnig buddsoddiad, adfywio canol y dref a chyfleoedd ar gyfer moddau trafnidiaeth gynaliadwy.

Gwahanol leoliadau eang ar gyfer tai a thwf cyflogaeth.

- ◆ Estyniad trefnol a safleoedd bach eraill.
- ◆ Gwasgariad o safleoedd bach ledled y Fwrdeistref Sirol.
- ◆ Safle mawr strategol tir llwyd a safleoedd bach eraill.

13.5 Er y gallai'r opsiwn estyniad trefol gadw pobl oed gwaith a chyflenwi amrywiaeth o dai a chyfleusterau, byddai mwy o isadeiledd yn ofynnol, mwy o angen i deithio a defnydd uwch o ynni. Yn ychwanegol, byddai hefyd yn effeithio'n groes ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol, Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol a mynediad at y cronfeydd glo.

13.6 Byddai'r opsiwn gwasgariad yn galluogi i'r swm cywir o dai a chyflogaeth i gael eu hadeiladu ond gallai fod yn fwy costus a byddai rhagor o waith yn angenrheidiol i greu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy. Byddai yna hefyd ragor o effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol.

13.7 Byddai'r opsiwn safle mawr tir llwyd a Ffeirir yn ymddwyn fel hyb i drafnidiaeth a chysylltiadau trafnidiaeth ledled y Fwrdeistref Sirol. Byddai lledaenu datblygiadau bach ledled yr ardal yn galluogi cyfleusterau newydd yn y cymunedau presennol fel ysgolion.

14 AG o Bolisïau

14.1 Datblygodd y Cyngor 28 o Bolisïau Cyffredinol wedi eu strwythuro o dan benawdau pwnc yn gysylltiedig â'r Nodau. Cafodd y polisïau eu profi yn erbyn Nodau AG a'u hystyried i fod yn gadarnhaol yn gyffredinol. Yn benodol, mae dosbarthiad a lleoliad y safleoedd tai yn debygol o arwain at lai o effaith ar dir llwyd, a gall mewn gwirionedd arwain at beth tir halogedig a ddatblygwyd eisoes, yn cael ei adfer. Er syndod, gwnaeth polisïau amgylcheddol sgorio'n dda gan fod tyfu'r boblogaeth yn gynaliadwy yn sicrhau fod gan y boblogaeth fynediad da at wagle agored o safon ac mae gwelliannau i'r amgylchedd naturiol yn ei wneud yn fwy deniadol i fuddsoddiad.

- 14.2 Roedd rhai o'r canfyddiadau mwy ansicr o'r asesiad ynghylch y polisiâu a oedd yn cynnig rhyw fath o ddatblygiad adeiledig, a'u heffaith ar faterion fel dŵr, newid yn yr hinsawdd, ecoleg a thirlun. Er enghraifft, roedd polisiâu yn hyrwyddo technoleg ynni adnewyddadwy ac echdynnu mwynau yn gwrthdaro â nodau sy'n berthnasol i ecoleg, cefn gwlad a thirlun. Felly'r hyn fydd yn allweddol wrth sicrhau fod unrhyw wrthdaro ag ystyriaethau amgylcheddol yn gallu cael eu heirioli/iawndalu fydd geiriad manwl gywir y polisiâu sy'n cynnwys y materion hyn yn y Cynllun Adnau.
- 14.3 Fodd bynnag, bydd llwyddiant gwirioneddol y polisiâu hyn cydberthyn â pha mor wydn ydynt a pha mor effeithiol y byddant wrth gael eu defnyddio pan fydd y CDLI wedi cael ei fabwysiadu. Bydd hyn yn fater a fydd angen cael ei fonitro'n agos drwy gydol oes y Cynllun.

15 Crynodeb o'r AG ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol a CATT

- 15.1 Ceir nifer cymharol uchel o safleoedd Ymgeisiol a safleoedd CATT wedi eu lleoli yn Wardiau Cyfarthfa, Plymouth a'r Dref sy'n arwain at bwysau datblygu o botensial uchel. Fodd bynnag, yn sgil pa mor agos ydyn nhw at wasanaethau a chyfleusterau maen nhw'n sgorio'n dda ar y nodau cymdeithasol.
- 15.2 Mae'r safleoedd sy'n cael eu cynnig yn gyffredinol ar gyfer tai wedi eu lleoli oddi fewn i ardal sy'n profi Amddifadedd Lluosog, neu ardaloedd trefol presennol gerllaw yn y Dowlais, Gurnos ac Ynys Owen ac maen nhw'n gyffredinol yn sgorio'n ffafriol o ran nodau cymdeithasol.
- 15.3 Mae yna elfen o ansicrwydd mewn perthynas ag effeithiau negyddol arfaethedig ar dirlun mewn rhai safleoedd y tu allan i gyfyngiadau annedd yn Ynys Owen a thir llwyd yn Ward y Gurnos a Chyfarthfa, yn benodol eu hagosrwydd at Safleoedd SoDdGa a SPWNau ac yn hynny o beth maen nhw'n sgorio'n negyddol ar nodau amgylcheddol.
- 15.4 Mae safleoedd yn Wardiau'r Parc, Penydarren a'r Faenor yn sgorio'n ffafriol yn gyffredinol yn sgil eu hagosrwydd at ysgolion, gwasanaethau bws da, gwasanaethau lleol a chyfleusterau gerllaw fel Parc Cyfarthfa, Taith y Taf, canol dref Merthyr Tudful a llwybrau teithio actif, datblygiad adeiledig presennol a natur tir llwyd y safleoedd.

16 Dadansoddiad o'r Arfarniadau

Sut mae'r AG wedi dylanwadu ar y SFF

- 16.1 Mae'r arfarniad systematic o'r amrywiol gydrannau sy'n llunio'r SFF a gynorthwyr yn natblygiad y gyfres o nodau strategol yn gyson â'r fframwaith

cynaliadwyedd a osodir allan yn yr Adroddiad Cwmpasu AG. Roedd hyn yn cynnwys yr arfarniad o'r opsiynau strategol a oedd yn llywio adnabyddiaeth y Drafft Sff fel bod y CDLI yn y lle gorau i fynd i'r afael â'r materion allweddol tebygol: economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n effeithio ar ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Yn ystod y cam hwn, mae'r AG wedi cynorthwyo i ddatblygu polisiau craidd strategol ar gyfer y CDLI ac mae'n ceisio eirioli unrhyw effeithiau negyddol sylweddol sy'n ganlyniad i'r Sff.

Effeithiau Sylweddol Tebygol o'r Sff

16.2 Wrth i'r cynllun ddatblygu gellir mynegi barn well am unrhyw effeithiau negyddol penodol o'r CDLI ar y Nodau AG a ffyrdd o'u heirioli neu eu gwella, er bod manylion penodol o'r mesuriadau hyn angen cael eu chwyddo yn y broses Gynllunio. Caiff crynodeb o arfarniad o unrhyw Effeithiau Sylweddol Tebygol a ddynodwyd gan y broses AG Cychwynnol eu gosod allan fel a ganlyn:

Tabl 3: Dadansoddiad o Arfarniad o'r Strategaeth a Ffeir (Sff)		
Strategaeth a Ffeir	Effeithiau Arwyddocaol Tebygol	Ystyriaeth o ffyrdd i liniaru effeithiau negyddol
Gweledigaeth	Yn gyffredinol, mae'r weledigaeth yn perfformio'n dda yn erbyn y mwyafrif o Amcanion yr AC; yn enwedig y rheini sy'n cyfeirio at Gymunedau, Tai, Economi a Chyflogaeth. Mae hyn i'w ddisgwyl gan gynllun sy'n cynnig lefel gynaliadwy o gynnydd poblogaeth sy'n gysylltiedig gyda strategaeth o'r fath.	Gan fod y weledigaeth yn nodi fframwaith troswaol ar gyfer datblygiad, bydd ffyrdd i ddatrys gwrthdaro a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu hateb drwy asesu polisiau Sff a chynigion arfaethedig y CDLI.
Amcanion	Pan y'u profwyd yn erbyn amcanion yr AC, canfuwyd fod pob un o amcanion yr AC wedi integreiddio egwyddorion yr AC yn llwyddiannus. Golyga hyn nad oes yr un ohonynt yn anghydnaws yn enwedig parthed amcanion cymdeithasol ac economaidd y Sff a lle mae amcanion y Sff a'r AC yn ymdrin â'r un materion penodol yn ymwneud â thirwedd a bioamrywiaeth.	Gan fod yr amcanion yn ffurfio rhan o'r fframwaith troswaol, bydd ffyrdd o ddatrys problemau a neu lliniaru effeithiau negyddol yn cael eu cyfeirio drwy asesiad polisiau'r Sff ac argymhellion y CDLI.
Opsiwn Tyfiant Cynaliadwy	Mae ansicrwydd gyda materion tebyg i newid yn yr hinsawdd, ynni a'r defnydd o ddŵr. Mae hyn i'w ddisgwyl gan unrhyw gynllun sy'n argymhell tyfiant, yn enwedig yn ystod y cyfnod cynnar hwn. Mae'r opsiwn hwn yn debygol o arwain at ddefnydd uwch o ynni na'r lefelau presennol ac mae'n debygol y bydd mwy o alw am ddŵr. Mae'n	◆ Diogelu ardaloedd ar gyfer cynigion ynni adnewyddadwy. ◆ Defnyddio seilwaith gwyrdd i liniaru newidiadau hinsawdd. ◆ Gallai dulliau diogelu rheolaeth ddŵr gael eu defnyddio.

	debygol y gallai hyn gael effaith negyddol a gallai fod yn anodd ei ddatrys.	
Un Safle Tir Llwyd Strategol a safleoedd bychain eraill Opsiwn Gofodol	Bydd rhywfaint o wrthdaro gydag ystyriaethau amgylcheddol. Bydd gofyn i'r lefel arfaethedig o ddatblygiad a gynigir dderbyn mesurau lliniaru er mwyn gweld ei effaith ar yr amgylchedd ddŵr.	Mae safonau adeiladu a chynllunio wedi esblygu mewn modd a fydd yn gymorth i liniaru eu heffaith ar yr amgylchedd ddŵr. Mae natur wasgaredig y safleoedd bychain yn cynyddu'r tebygolrwydd y gall mesurau lliniaru gael eu cyflawni.
Polisïau	Roedd rhai o ganfyddiadau mwyaf ansicr yr asesiad yn seiliedig ar bolisïau a oedd yn cynnig rhyw fath o ddatblygiad adeiladu a'u heffeithiau ar ddŵr, newid yn yr hinsawdd, ecoleg a thirwedd.	Yr allwedd yw sicrhau fod unrhyw wrthdrawiad gydag ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu lleihau ac y gallant gael eu lliniaru / digolledi – dyma fydd y geiriad penodol yn y polisïau a fydd yn ymwneud â'r materion yn y Cynllun Adneuo.
Casgliad	Yn gyffredinol, pan y'u profwyd yn erbyn amcanion yr AC, mae'r SFF yn llwydo i integreiddio egwyddorion cynaliadwyedd. Fodd bynnag ceir rhai gwrthdrawiadau gydag ystyriaethau amgylcheddol.	Wrth i broses y cynllun symud rhagblaen, bydd rhagor o fanylion yn dod i'r amlwg a fydd yn ein galluogi i wneud gwell penderfyniad ar effaith benodol y CDLI ar amcanion yr AC.

17 Y camau nesaf

- 17.1 Caiff yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol ei ddefnyddio i lywio paratoad o'r adroddiad AG a fersiwn Adnau o'r CDLI Amnewid 2016 – 2031. Ar ôl mabwysiadu'r fersiwn terfynol o'r cynllun amnewid, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cyhoeddi 'Datganiad AAS' a fydd yn esbonio sut mae'r AG wedi dylanwadu ar y CDLI.

18 Sut i wneud sylwadau am yr Adroddiad Cynaliadwyedd Cychwynnol

- 18.1 Mae'r cyfnod ymgynghori rhwng 14 Gorffennaf tan 25 Awst 2017.
- 18.2 Rhaid i'r sylwadau a wnaed am yr Adroddiad Cynaliadwyedd Cychwynnol gael eu gwneud yn ysgrifenedig a'u derbyn gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol erbyn 12 ganol dydd 25 Awst 2017.
- 18.3 Caiff yr holl sylwadau a gaiff eu gwneud erbyn y dyddiad cau eu cydnabod a'u hystyried, fodd bynnag ni all y Cyngor warantu fod pob sylw a gaiff ei dderbyn ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei ystyried.
- 18.4 Mae ffurflenni sylwadau a'r holl ddogfennau cyn-adneuo ar gael yn y lleoliadau canlynol:
- ◆ Swyddfeydd y Cyngor, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, *Merthyr Tudful*, CF47 8AN
 - ◆ Swyddfeydd y Cyngor, Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, *Merthyr Tudful*, CF48 4TQ
 - ◆ Llyfrgell Ganolog Merthyr Tudful, Stryd Fawr, *Merthyr Tudful*, CF47 8AF
 - ◆ Hyb Llyfrgell Merthyr, *Canolfan Hamdden Merthyr Tudful*, *Merthyr Tudful*, CF48 1UT
 - ◆ Llyfrgell Treharris, Stryd Perrott, *Treharris*, *Merthyr Tudful*, CF46 5ET
 - ◆ Llyfrgell Dowlais, *Stryd yr Eglwys*, *Dowlais*, *Merthyr Tudful*, CF48 3HS
 - ◆ Llyfrgell Gymunedol Aberfan, Heol Pantglas, *Aberfan*, *Merthyr Tudful*, CF48 4QE
- 18.5 Neu gellir eu lawrlwytho o wefan y Cyngor: www.merthyr.gov.uk neu o Hyb Cwm Taf www.cwmtafhub.co.uk
- 18.6 Gallwch un ai e-bostio ffurflenni wedi eu cwblhau at:
devplanning@merthyr.gov.uk neu eu postio i:
- Pennaeth Cynllunio a Chefn Gwlad
Adran Cynllunio a Chefn Gwlad
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Uned 5, Parc Busnes Triongl
Pentrebach
Merthyr Tudful
CF48 4TQ

- 18.7 Os oes unrhyw ymholiadau pellach gennych ynghylch sut i gyflwyno eich sylwadau: E-bostiwch y tîm CDLI @ devplanning@merthyr.gov.uk [<mailto:devplanning@merthyr.gov.uk>](mailto:devplanning@merthyr.gov.uk) neu ffoniwch 01685 726279